

## Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Adeiladu

Mehefin 2018



### Sut bydd Horizon yn rheoli dŵr yn ystod y cyfnod adeiladu

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn bwriadu adeiladu a rhedeg Wylfa Newydd, Gorsaf Bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn.

Yn ystod y cam adeiladu, bydd angen casglu, trin, monitro a gollwng dŵr wyneb (dŵr glaw yn bennaf) a charthion i'r cyrsiau dŵr lleol neu i'r môr.

Bydd hefyd angen tynnu dŵr o'r argaeau coffr. Mae'r rhain yn amgaeadau sydd yn y môr neu wrth ei ymyl a byddan nhw'n cael eu pwmpio er mwyn gallu adeiladu seilwaith, fel y sianel sugno dŵr oeri.

Mae Horizon angen Trwydded Amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ollwng dŵr i'r môr a chysiau dŵr.

# Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Adeiladu

## Ffynonellau dŵr

Bydd nifer o ffynonellau gwahanol o ddŵr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu y bydd angen ei reoli, ei drin a'i ollwng. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio isod.

### Dŵr wyneb

Mae'n bosibl i ddŵr glaw a fydd yn disgyn ar rannau o'r safle a fydd wedi cael eu paratoi a'u clirio o uwchbridd er mwyn adeiladu, ffoi gan godi gwaddod a halogyddion o'r pridd. Bydd System Draenio Gynaliadwy yn cael ei gosod i gasglu'r dŵr wyneb ffo hwn ar draws y safle. Bydd yn cael ei gyfeirio i byllau setlo gwaddod i dynnu'r gwaddod a'r solidau mewn daliant, cyn i'r dŵr glân gael ei ollwng i gyrsiau dŵr lleol ac i'r môr.

### Cloddio dwfn ac adeiladu'r argae coffr

Bydd rhannau o adeilad y prif offer yn cael ei osod yn y tir, a bydd angen i seilwaith fel y strwythur sugno dŵr oeri gael ei adeiladu yn y môr. Yn ystod y cam adeiladu bydd y dŵr sy'n cael ei gasglu (dŵr glaw, dŵr daear ac unrhyw ddŵr môr a fydd yn gollwng drwy'r argaeau coffr) yn cael ei bwmpio i systemau trin gwaddod, cyn i'r dŵr glân gael ei ollwng i'r môr.

### Offer gwneud concrit

Bydd dŵr glaw a fydd yn disgyn ar yr offer gwneud concrit yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio yn y broses o wneud concrit, a bydd unrhyw ddŵr dros ben yn cael ei gludo oddi ar y safle mewn tanceri i'w drin. Bydd dŵr wyneb ffo o'r ardal o gwmpas yn cael ei gasglu, bydd ei pH yn cael ei addasu (os bydd angen) a bydd gwaddod yn cael ei dynnu, ac wedyn bydd yn cael ei ryddhau i'r môr.

### Golchi olwynion cerbydau

Bydd olwynion cerbydau'n cael eu glanhau mewn ardaloedd penodol. Bydd y dŵr gwastraff yn cael ei gasglu a'i basio drwy drapiau silt ac atalwyr olew, cyn mynd i system trin gwaddod ac wedyn cael ei ryddhau i'r môr.

### Elifion wedi'u trin

Ar y cyfnod prysuraf amcangyfrifir y bydd hyd at 9,000 o weithwyr ar y prif safle adeiladu. Bydd carthion o gyfleusterau lles y safle adeiladu yn cael eu trin mewn gwaith trin dŵr gwastraff arbennig cyn cael eu rhyddhau i'r môr. Ar sail gwaith modelu ac astudiaethau eraill, mae disgwyl y bydd hyn yn cael ei wasgaru'n gyflym heb unrhyw effeithiau niweidiol.

## Ein cais i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae Horizon wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Amgylcheddol Gollwng Dŵr Adeiladu. Mae ein cais yn disgrifio'r gwaith rydyn ni'n cynnig ei wneud i reoli'r dŵr a fydd yn cael ei ollwng o Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn ystod y cam adeiladu.

Mae ein cais yn cynnwys:

- canfyddiadau asesiadau risg amgylcheddol gweithgareddau gollwng dŵr ar gyrff dŵr yn agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd, a Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd cyfagos;

- sut mae Horizon wedi asesu na fydd gan y dŵr a fydd yn cael ei ollwng i ddraeniau Tre'r Gof ddim effeithiau sylweddol ar ansawdd dŵr yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof wrth ymyl; a
- ymrwymiad i fonitro a samplu dŵr, er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau a fydd yn cael eu gosod gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Y camau nesaf

Ar ôl cyflwyno ein cais, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cynnal ei asesiad ei hun o'r effeithiau amgylcheddol posibl cyn ystyried a yw am gyhoeddi Trwydded Amgylcheddol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.horizonnuclearpower.com/hafan](http://www.horizonnuclearpower.com/hafan) weld copi o'n cais llawn, yn ogystal â'r dogfennau ategol.